Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

Polisi yn Erbyn Bwlio

Cyflwyniad

Mae canllawiau'r DfES yn diffinio bwlio fel gweithredoedd a olygir i fod yn niweidiol ag sydd yn digwydd yn rheolaidd. Gall bwlio fod yn uniongyrchol (un ai'n gorfforol neu'n llafar) neu yn anuniongyrchol (er enghraifft, anwybyddu neu ddim siarad â pherson).

Nodau ac amcanion

Peth drwg yw bwlio ac mae'n niweidio plant unigol. Rydym felly yn gwneud popeth fedrwn i'w rhwystro, trwy ddatblygu ethos ysgol lle ystyrir bwlio i fod yn annerbyniol.

Fel ysgol, rydym yn bwriadu cynhyrchu amgylchedd diogel lle gall pob un ddysgu heb bryder ac mae mesurau mewn lle i ostwng y tebygolrwydd o fwlio.

Bwriad y polisi yma yw cynhyrchu ymateb ysgol cyson i unrhyw achosion o fwlio a all godi.

Ein bwriad yw gwneud pob un sydd â chysylltiad â'r ysgol yn ymwybodol o'n gwrthwynebiad i fwlio, ac rydym yn gwneud cyfrifoldeb pob person yn eglur mewn perthynas â dileu bwlio yn ein hysgol.

Rôl y pennaeth

Y pennaeth sydd â chyfrifoldeb gweithredu strategaeth gwrth-fwlio'r ysgol ac i sicrhau for yr holl staff (y rhai sy'n addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu) yn ymwybodol o bolisi'r ysgol ac yn gwybod sut i ddynodi a delio gydag achosion o fwlio.

Mae'r pennaeth yn sicrhau fod pob plentyn yn gwybod fod bwlio yn beth drwg a'i fod yn ymddygiad annerbyniol yn yr ysgol yma. Mae'r pennaeth yn tynnu sylw'r plant at hyn ar adegau addas. Er enghraifft, os oes achos yn digwydd, efallai fydd y pennaeth yn penderfynu defnyddio gwasanaeth fel fforwm i drafod pam fod yr ymddygiad yma'n ddrwg gyda phlant eraill, a pham bod disgybl yn cael ei gosbi.

Mae'r pennaeth yn sicrhau fod yr holl staff yn derbyn digon o hyfforddiant i fod yn gymwys i ddynodi a delio gydag unrhyw achos o fwlio.

Y pennaeth sydd yn gosod hinsawdd yr ysgol o gefnogaeth y naill at y llall a chlod am lwyddiant, a thrwy hyn gwneud bwlio yn llai tebygol. Pan deimla plant eu bod yn bwysig ac yn perthyn i ysgol gyfeillgar a chroesawgar, mae bwlio yn llawer llai tebyg o fod yn rhan o'u hymddygiad.

Rôl yr athrawon a'r staff cefnogi

Mae holl aelodau staff ein hysgol yn cymryd pob ffurf o fwlian o ddifrif ac yn ceisio'i atal rhag cymryd lle.

Mae athrawon yn cadw cofnodion eu hunain o bob achos sydd yn digwydd yn eu dosbarth, a'r rhai maent yn ymwybodol ohonynt yn yr ysgol. Os yw athrawon yn dyst i

achos o fwlio, byddant un ai yn ymchwilio i'r achos eu hunain neu yn ei gyfeirio at y pennaeth. Mae athrawon a'r staff ategol yn gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi'r plentyn sydd yn cael ei fwlio. Os yw plentyn yn cael ei fwlio dros gyfnod o amser, yna, yn dilyn ymgynghori gyda'r pennaeth, mae'r athro yn hysbysu rhieni'r plentyn.

Yn yr ysgol, mae staff yn cofnodi pob achos o fwlian sydd yn digwydd o fewn a thu allan i'r dosbarth. Rydym hefyd yn cofnodi achosion sydd yn digwydd yn agos i'r ysgol, neu ar y ffordd rhwng yr ysgol a chartref y plentyn. Dylai unrhyw oedolyn sydd yn dyst i achos o fwlian ei gofnodi.

Mewn unrhyw achos o fwlio'n cymryd lle rhwng aelodau o ddosbarth, byth yr athro yn delio gyda'r achos yn y fan a'r lle. Gall hyn olygu cynghori a chefnogi dioddefwr y bwlio, a chosb i'r plentyn sydd wedi cyflawni'r bwlio. Caiff amser ei wario yn siarad gyda'r plentyn sydd wedi bwlio, gan egluro pam fod ei (g)weithred yn ddrwg, ac anogir y plentyn hwnnw i newid ei (h)ymddygiad yn y dyfodol. Os yw plentyn ynghlwm yn barhaus â bwlio plant eraill, caiff y pennaeth a'r cydlynydd anghenion arbennig eu hysbysu. Byddwn yna yn gwahodd rhieni'r plentyn i ddod i drafod y sefyllfa yn yr ysgol. Mewn achosion mwy difrifol, er enghraifft lle mae'r trafodaethau cychwynnol yma wedi profi'n aneffeithiol, gall y pennaeth gysylltu gydag asiantaethau cefnogi allanol, megis y gwasanaethau cymdeithasol.

Mae staff yn mynychu hyfforddiant fel mater o drefn, sydd yn eu galluogi i ddynodi bwlio a dilyn polisi a gweithdrefnau'r ysgol mewn perthynas â rheoli ymddygiad.

Mae athrawon yn defnyddio amrediad o ddulliau i helpu atal bwlio ac i sefydlu hinsawdd o ymddiriedaeth a pharch at bawb. Maent yn defnyddio drama, chwarae rôl, storïau ac yn y blaen, o fewn y cwricwlwm ffurfiol, i helpu disgyblion ddeall teimladau plant sy'n cael eu bwlio, ac i ymarfer yr ataliaeth sydd angen i osgoi syrthio i mewn i ymddygiad bwlio. Caiff amser cylch ei ddefnyddio i ganmol, gwobrwyo a dathlu llwyddiant yr holl blant, ac felly helpu creu awyrgylch gadarnhaol.

Rôl y rhieni

Dylai rhieni sydd yn poeni bod eu plentyn efalle'n cael ei bwlio, neu sydd yn amau fod eu plentyn yn cyflawni'r bwlio, gysylltu ar unwaith gydag athro dosbarth y plentyn. Os nad ydynt yn fodlon gyda'r ymateb, dylid cysylltu gyda'r pennaeth. Os ydynt yn parhau i fod yn anfodlon, dylid dilyn gweithdrefn cwynion yr ysgol, fel y'i nodir ym Mhrosbectws yr ysgol.

Mae gan rieni gyfrifoldeb i gefnogi polisi'r ysgol yn erbyn bwlio, trwy annog eu plentyn i fod yn aelod cadarnhaol o'r ysgol.

Rôl y disgyblion

Caiff disgyblion eu hannog i ddweud wrth unrhyw un maent ymddiried ynddo os ydynt yn cael eu bwlio, ac os yw'r bwlio'n parhau, mae'n rhaid iddynt barhau i hysbysu pobl.

Gwahoddir disgyblion i roi eu safbwyntiau i ni am amrediad o faterion ysgol, gan gynnwys bwlian, mewn holiaduron disgyblion, sesiynau amser cylch a'r 'bocs becso'.

Mae ein Cyngor Ysgol wedi datblygu ei god gwrth-fwlio/cyfeillgarwch ei hunan.

Rôl y llywodraethwyr

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r pennaeth ym mhob ymdrech i ddileu bwlian o'n hysgol. Ni fydd y corff llywodraethol yn cydoddef unrhyw fwlian o gwbl yn ein hysgol, a bydd unrhyw achosion o fwlio sydd yn digwydd yn cael eu cymryd yn wirioneddol o ddifri, a'i datrys yn briodol.

Gall rhiant sydd yn anfodlon gyda'r modd mae'r ysgol wedi delio gydag achos o fwlio gofyn i gadeirydd y llywodraethwyr i edrych i mewn i'r achos. Mae'r corff llywodraethol yn ymateb o fewn deg diwrnod i unrhyw gais oddi wrth riant i ymchwilio achosion o fwlio. Mewn pob achos, mae'r corff llywodraethol yn hysbysu'r pennaeth, ac yn gofyn iddo/iddi i ymgymryd ag ymchwiliad i mewn i'r achos, ac i adrodd yn ôl i gynrychiolydd o'r corff llywodraethol.

Monitro ag adolygu

Caiff y polisi yma ei fonitro yn ddyddiol gan y pennaeth, sydd yn adrodd i'r llywodraethwyr yn ôl y gofyn, am effeithiolrwydd y polisi. Mae llywodraethwyr yn cadw llygad yn enwedig am fwlio hiliol, neu fwlio sydd wedi ei gyfeirio at blant sydd ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig.